

RHESTR WIRIO / FFURFLEN MANYLION POLISI POLICY INFORMATION SHEET / CHECKLIST

Teitl y Polisi:	Y Polisi Diogelu	
Perchennog y Polisi:	Phil Jones, Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata	
Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:	James Nelson, Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd,	
Cylch Adolygu:	Pob 2 flynedd	
Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog):	I'w weithredu gan:	Dyddiad:
<ul style="list-style-type: none"> Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad (ELD) 	Phil Jones / Rachel Lewis	23/10/2023
<ul style="list-style-type: none"> Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer dwy wythnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH) 	Rachel Lewis	23/10/2023
<ul style="list-style-type: none"> Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau 	Anfonwyd at SP 26/10	14/11/2023
<ul style="list-style-type: none"> Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol 	Anfonwyd gan PJ	13/11/2023
<ul style="list-style-type: none"> Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) 	Anfonwyd gan PJ	13/11/2023
<ul style="list-style-type: none"> Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) 	N/A	N/A
<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol / SHE 	DO – 07/12/2023	
<ul style="list-style-type: none"> Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor* 	CSSC – 12/03/2024	
<ul style="list-style-type: none"> Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd 	25/04/2024	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp 	29/04/2024	

Y Polisi Diogelu

'Diogelu - Cyfrifoldeb Pawb'



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau:	12/03/2024
Adolygwyd gan y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau:	12/03/2024
Cymeradwywyd gan y Bwrdd:	25/04/2024

Newidiadau arfaethedig i'r Polisi Presennol. Mae'r newidiadau yn rhai helaeth i ymateb i ganllawiau newydd y Llywodraeth.

Cyfnod adolygu	Adran	Disgrifiad o'r newidiadau Polisi	Y rheswm dros newid:
Tachwedd 2023	1.3	Dileu safleoedd <i>Mewnosod Campysau a Chanolfannau</i>	
Tachwedd 2023	1.4	Dileu 1.4 Bydd y Coleg bob amser yn gweithio'n unol â chanllawiau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Pholisi a Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a ddefnyddir gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru sy'n cynnwys yr holl rym a darpariaethau deddfwriaethol perthnasol. <i>Mewnosod 1.4 Bydd Grŵp Llandrillo Menai bob amser yn gweithio o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb (2010) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</i>	Yn cadw'r polisi yn unol â dogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru
Tachwedd 2023	3.3	Dileu e.e. Facebook, ffôn symudol neu e-bost. <i>Mewnosod Megis ond nid yn gyfyngedig i, Instagram, Facebook, Snapchat trwy ddefnyddio ffôn symudol, e-bost neu unrhyw ddyfais electronig arall.</i>	Diweddariad ee i sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio'n aml gan ein dysgwyr.
Tachwedd 2023	1.5	Dileu 1.5 Cyhoeddwyd strategaeth CONTEST gan Lywodraeth y DU ac mae'n rhan o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch gyffredinol a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2015. Mae Adran 26 o Ddeddf CT&S yn gosod dyletswydd ar 'awdurdodau penodedig' wrth arfer eu dyletswyddau i roi 'sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth' <i>Mewnosod 1.5 Nod CONTEST yw lleihau'r risg o derfysgaeth i'r DU, ei dinasyddion a'i buddiannau dramor, fel y gall pobl fyw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus. Mae CONTEST yn ein helpu i gydbwysu</i>	Defnyddiwch eiriad o ganllawiau newydd CONTEST ar gyfer Cymru a Lloegr (2023)

		<i>ein dyletswydd i amddiffyn y DU a'i buddiannau rhag terfysgaeth yn erbyn yr angen i ymateb i fygythiadau diogelwch cenedlaethol eraill.</i>	
	1.5	Dileu Strategaeth <i>Mewnosod Polisi</i>	
Tachwedd 2023	1.5	Dileu a ddaeth i rym ym mis Medi 2015	
Tachwedd 2023	1.6	Dileu / Bydd <i>Mewnosod Bydd Grŵp Llandrillo Menai</i>	Gwneud yn benodol i Grŵp Llandrillo Menai
Tachwedd 2023	1.6	Dileu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr <i>Mewnosod Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP)</i>	Diweddarau rôl y swydd
Tachwedd 2023	3.3.4	Dileu (Daw'r diffiniadau air am air o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008 a chanllawiau Mewn Dwylo Diogel) <i>Mewnosod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, 2019</i>	Defnyddiwch y canllawiau wedi'u diweddarau
Tachwedd 2023	3.3.5	Dileu Strategaeth Prevent 2011 <i>Mewnosod Wedi'i ddiffinio yn Strategaeth Gystadleuaeth Llywodraeth y DU 2023,</i>	Wedi'i newid i adlewyrchu canllawiau wedi'u diweddarau 2023
Tachwedd 2023	4.1, 4.2, 4.12, 4.14	Dileu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr <i>Mewnosod</i>	Diweddarau rôl y swydd a newid DSL i DSP i adlewyrchu terminoleg LIC

		<i>Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a Marchnata a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP)</i>	
Tachwedd 2023	4.7	Dileu Rhaid llenwi ffurflen datgeliad Diogelu a'i rhoi i'r Swyddog Diogelu ar gyfer ei gofnodion.	Ni wneir pob datgeliad diogelu gan ddefnyddio'r ffurflen hon a gwneir rhai trwy e-bost neu ar lafar i ddechrau
Tachwedd 2023	5.4	Dileu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 <i>Mewnosod Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019</i>	Canllawiau LIC wedi'u diweddarau
Tachwedd 2023	6.2	<i>Mewnosod 6.2 Mae pob cyfeiriad Diogelu yn destun adroddiad misol yng nghyfarfodydd GLLM Tîm Strategol, Tîm Polisi a Llywodraethwyr.</i>	Er mwyn adlewyrchu arfer adrodd wedi'i ddiweddarau
Tachwedd 2023	4.4	Dileu polisi disgyblu staff. <i>Mewnosod Y Polisi ynghylch Disgyblu, Cwyno a Galluogrwydd</i>	Defnyddio teitl polisi cywir
Tachwedd 2023	1.3	<i>Centres (fersiwn Saesneg)</i>	Sillafu diwygiedig fel yr awgrymwyd gan SH (ymgyngoriad)
Tachwedd 2023	3.3	Wedi'i ddiweddarau i'r canlynol: <i>Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw le arall, sy'n cynnwys yn electronig, ar-lein a thrwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol.</i>	Diwygiwyd yn dilyn awgrym ymgynghori gan HP
Tachwedd 2023	4.1	Brawddegau wedi'u diweddarau i'r isod: <i>Mae'r Swyddogion Diogelu ar gael i:</i> <i>4.1.1 Gwranddo ar ddysgwyr a chyfeirio fel y bo'n briodol</i> <i>4.1.2 Darparu cyngor a chefnogaeth i staff ar faterion yn ymwneud â diogelu</i> <i>4.1.3 adrodd ac uwchgyfeirio datgeliadau i Swyddog Arweiniol Diogelu (SLO)</i>	Diwygiwyd yn dilyn awgrym ymgynghori gan HP



		<p><i>4.1.4 Gwneud atgyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed</i></p> <p><i>4.1.5 Cefnogi dysgwyr gyda materion diogelu a gweithio rhyngasiantaethol</i></p>	
Tachwedd 2023	4.8	<p>Brawddegau wedi'u diweddarau i'r isod:</p> <p>4.8 Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr bod atgyfeiriad i'r gwasanaethau plant yn mynd i gael ei wneud, oni bai y gallai rhoi gwybod iddynt ei hun roi'r plentyn mewn perygl. Gall hyn gynnwys: -</p> <ul style="list-style-type: none">● <i>Pan fo cam-drin rhywiol yn cael ei amau neu ei ddatgelu</i>● <i>Pan fo amheuaeth bod salwch yn cael ei ffugio neu'n cael ei achosi</i>● <i>Lle mae ofnau am ddiogelwch plentyn neu eraill wrth hysbysu rhieni/gofalwyr</i>● <i>Lle nad yw'n bosibl cysylltu â'r rhieni/gofalwyr ar unwaith ac mae angen gweithredu ar unwaith i sefydlu diogelwch y plentyn.</i>	Diwygiwyd yn dilyn awgrym ymgynghori gan HP

Polisi Diogelu

'Diogelu - Cyfrifoldeb Pawb'

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i hyrwyddo a darparu amgylchedd diogel a chynhaliol lle mae'r holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial academiaidd.
- 1.2. Mae'r Grŵp yn cydnabod yn llawn ei ddyletswydd i ddiogelu ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Y Polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, 'Diogelu - Cyfrifoldeb Pawb' yw sail yr arferion a'r trefnau y mae'r Grŵp yn eu defnyddio i ddarparu cyfleoedd a gwasanaethau i wella profiadau dysgwyr ac ar yr un pryd cynnal amgylchedd dysgu diogel.
- 1.3. Nod holl Gampysau a Chanolfannau Grŵp Llandrillo Menai ydy mabwysiadu amgylchedd agored, diogel a gofalgar lle gall unrhyw blentyn neu oedolyn agored i niwed sy'n dymuno trafod pryderon a materion am eu bywydau wneud hynny mewn ffordd gefnogol ac anfeirniadol. Nod y polisi hwn yw sefydlu ymagwedd gydlynol ar draws holl Gampysau a Chanolfannau o adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o niwed sylweddol a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gadw dysgwyr yn ddiogel pan fyddant gartref ac yn y coleg.
- 1.4. Bydd Grŵp Llandrillo Menai bob amser yn gweithio o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb (2010) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 1.5. Nod CONTEST yw lleihau'r risg o derfysgaeth i'r DU, ei dinasyddion a'i buddiannau dramor, fel y gall pobl fyw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus. Mae CONTEST yn ein helpu i gydbwyso ein dyletswydd i amddiffyn y DU a'i buddiannau rhag terfysgaeth yn erbyn yr angen i ymateb i fygythiadau diogelwch cenedlaethol eraill. Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymgorffori proses atgyfeirio pryderon Prevent yn ei broses o atgyfeirio materion ynghylch diogelu. Mae strategaeth Prevent Grŵp Llandrillo Menai'n amlinellu cwmpas y dull seiliedig ar risg o ymdrin â Dyletswydd Prevent.
- 1.6. Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n penodi aelodau dynodedig o staff i gydlynu ei weithdrefnau diogelu plant ac oedolion agored i niwed ar draws pob safle a darpariaeth. Bydd y tîm o dan reolaeth weithredol Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a Marchnata a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) a fydd yn atgyfeirio ac yn cysylltu â'r asiantaethau priodol. Penaethiaid y coleg fydd yn gyfrifol ar ran yr uwch reolwyr.
- 1.7. Mae'r polisi cyffredinol hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer canllawiau, gweithdrefnau a pholisïau arbenigol y Coleg o ran Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed yn eu hystyr ehangaf. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Datgelu cofnodion troseddol (staff a dysgwyr)
 - Polisi i ddisgyblion 14-16 oed sy'n mynychu dosbarthiadau nos a darpariaeth y tu allan i oriau academiaidd arferol
 - Llety Myfyrwyr i Fyfyrwyr Rhyngwladol a Chenedlaethol gan gynnwys protocolau ar gyfer asiantaethau statudol eraill
 - Canllawiau ar ymweliadau allanol ac ymweliadau preswyl
 - Camdefnyddio Alcohol a Sylweddau
 - Gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed
 - Sgiliau Byw'n Annibynnol - Canllawiau ar gyfer Diogelu Oedolion Agored i Niwed
 - Canllawiau TGCh

- Polisi ynghylch Perthynas Gydsyniol
- Cod Ymddygiad y Staff

2. Sgôp

- 2.1. Mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, ac felly mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys uwch reolwyr a llywodraethwyr, gwirfoddolwyr, staff asiantaeth neu unrhyw un sy'n gweithio ar ran y coleg sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr.
- 2.2. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i ddatgeliadau a wneir gan drydydd parti. Prif gyfrifoldeb y staff yw dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt a bod yn atebol am eu gweithredoedd. Nid cyfrifoldeb y staff yw ymchwilio i bryderon, honiadau neu ddatgeliadau. Bydd y Coleg yn trosglwyddo pryderon neu honiadau ynghylch cam-drin i'r asiantaeth briodol ar unwaith.
- 2.3. Mae'r Coleg yn gweithredu'n unol â'r prif egwyddorion sy'n deillio o Ddeddf Plant 1989 sy'n llywodraethu gwaith gyda phlant fel a ganlyn:

2.3.1. Lles y Plentyn sydd Bwysicaf

Lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf i'r Coleg. Mae diogelu a hyrwyddo lles plant yn flaenoriaeth a dyna yw prif ddiben y gwaith. Pan fydd penderfyniadau am ddyfodol plant yn cael eu gwneud, bydd eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn ogystal ag unrhyw anghenion sy'n deillio o hil, diwylliant, crefydd, anabledd ac iaith. Cymerir pob gofal i sicrhau diogelwch myfyrwyr o dan 18 oed ar unrhyw un o gampysau'r Coleg neu sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Coleg.

2.3.2. Cyfrifoldeb Rhieni

Cred y Coleg mai teuluoedd neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhieni a ddylai fod yn bennaf gyfrifol am ofalu am blant. Mae'r prif gyfrifoldeb yn parhau gyda'r rhieni hyd yn oed pan fydd eu plant yn destun gorchymyn llys. Felly, bydd y Coleg yn rhoi gwybod i rieni ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni ac yn ymgynghori â hwy o fewn y cyfyngiadau a ganiateir gan y canllawiau ar Ddiogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

2.3.3. Partneriaethau

Mae'r Coleg yn hyrwyddo perthynas waith agos ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth yr heddlu, ymddiriedolaethau iechyd, y gwasanaeth prawf, ysgolion, awdurdodau addysg, asiantaethau gwirfoddol ac eraill wrth ddiogelu plant. Bydd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rôl arweiniol oherwydd eu cyfrifoldebau statudol. Bydd y Coleg yn sicrhau bod gweithdrefnau mewnol i ddiogelu plant ar waith a bod y staff yn gyfarwydd â hwy ac yn eu deall. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau arweiniol ac yn eu cynorthwyo i ddiogelu plant drwy ddarparu gwybodaeth fanwl a gwasanaethau proffesiynol a drwy atgyfeirio pryderon neu wybodaeth am gamdriniaeth neu esgeulustod.

2.3.4. Egwyddorion Diogelu Oedolion Agored i Niwed

O dan y ddeddfwriaeth bresennol mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol a disgrisiwn i gymryd camau i sicrhau bod oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli. Bydd y dymuniadau a fynegir gan yr oedolyn agored i niwed yn hollbwysig yn y broses asesu a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae yna ddyletswydd sylfaenol i gydbwysu hawl yr oedolyn am ymreolaeth â'i angen i gael ei ddiogelu.

- 2.4. Mae gan ddyletswydd Prevent dri amcan penodol:

- Ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad a wynebwn gan y rhai sy'n ei hyrwyddo:
- Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn derbyn y cyngor a'r gefnogaeth briodol: a
- gweithio gyda sectorau a sefydliadau i leihau'r risg o radicaiddio
- Mae polisi Prevent y Grŵp yn esbonio sut y bydd GLIM yn rheoli'r risgiau a nodir yn y Ddyletswydd Prevent.

- 2.5. Bydd y Coleg yn gweithredu i ddiogelu ei fyfyrwyr rhag camdriniaeth, cam-fanteisio neu hunan-niweidio a bydd yn gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill i sicrhau diogelwch a lles ei fyfyrwyr.
- 2.6. Mae gan y Coleg yr hawl i wrthod cofrestru unrhyw unigolyn sydd ag euogfarn am gam-drin oedolyn sy'n agored i niwed neu blentyn.

3. Diffiniad o'r Termau

3.1. Plentyn

Drwy gydol y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig, mae cyfeiriad at "blentyn", "plant" neu "bobl ifanc" yn golygu'r rhai o dan 18 oed. Mae oedolyn yn unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd.

3.2. Oedolyn Agored i Niwed

Diffinnir oedolyn agored i niwed fel unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd ac:

- sy'n derbyn unrhyw fath o ofal iechyd
- sy'n derbyn gwasanaeth neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sydd wedi'i dargedu'n benodol at bobl ag anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran, anableddau neu gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol rhagnodedig.
- sy'n famau beichiog mewn gofal preswyl
- sydd ag anghenion cysylltiedig ag oedran sy'n cynnwys anghenion cysylltiedig ag eiddilwch, salwch, anabledd neu allu meddyliol
- sydd wedi wynebu camdriniaeth flaenorol, e.e. drwy drais domestig

(Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwylf, 2006)

3.3. Camdriniaeth

Gall rhywun gam-drin plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed drwy achosi niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant neu oedolion agored i niwed gael eu cam-drin mewn perthynas ddibynnol, neu'n llai aml, gan ddieithryn. Gall camdriniaeth fod yn fwriadol neu'n anfwriadol. Y categorïau o gamdriniaeth yw corfforol, emosiynol, seicolegol, rhywiol, ariannol, neu gamdriniaeth drwy esgeulustod. Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw le arall, sy'n cynnwys yn electronig, ar-lein a thrwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

3.4. Camdriniaeth Gorfforol

Gall camdriniaeth gorfforol olygu taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddio, mygu, neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn agored i niwed. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn neu oedolyn agored niwed maen nhw'n gofalu amdano, neu'n peri salwch bwriadol iddynt. Gellir disgrifio'r sefyllfa hon fel salwch sydd wedi cael ei ffugio neu'i achosi gan ofalwr.

3.5. Camdriniaeth Emosiynol neu Seicolegol

Camdriniaeth emosiynol yw trin plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn ffordd sy'n achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i

niwed. Fe all olygu cyfleu'r teimlad i blant neu oedolion agored i niwed eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn dda i ddim neu ddim ond yn cael eu gwerthfawrogi cyn belled â'u bod yn bodloni anghenion unigolyn arall. Fe all olygu gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad ar blant neu oedolion agored i niwed. Fe all olygu achosi i blant neu oedolion agored i niwed deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gam-fanteisio ar blant neu oedolion agored i niwed neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosynol yn gysylltiedig â phob math o gam-drin plant neu oedolion agored i niwed er ei fod yn gallu digwydd ar ei ben ei hun.

3.6. **Camdriniaeth rywiol**

Mae camdriniaeth rywiol yn golygu gorfodi neu gymell plentyn neu oedolyn agored i newid i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai a yw'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, a gweithredoedd treiddiol neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol. Gallant gynnwys gweithgareddau di-gyffwrdd, fel annog plant neu oedolion agored i niwed i edrych ar (neu greu) ddeunyddiau pornograffig neu i wyllo gweithgareddau rhywiol, neu i ymddwyn mewn modd rhywiol amhriodol.

3.7. **Esgeulustod**

Methiant cyson i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn neu oedolyn agored i niwed yw esgeulustod, ac mae'n debygol o amharu'n ddifrifol ar ei iechyd neu'i ddatblygiad. Gall olygu bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, lloches a dillad digonol, yn methu â diogelu plentyn neu oedolyn agored i niwed rhag niwed neu berygl corfforol, neu'n methu â sicrhau gofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosynol sylfaenol plentyn neu oedolyn agored i niwed, neu beidio ag ymateb iddynt.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, 2019

3.8. **Eithafiaeth**

Fe'i diffinnir yn strategaeth CONTEST y DU (2023) fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain, gan gynnwys democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch at wahanol grefyddau a chredoau. Rydym hefyd yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth y galw am farwolaeth aelodau o'r lluoedd arfog, yn y wlad hon neu dramor.

3.9. **Radicalaiddio**

Y broses lle mae person yn dod i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol

3.10. **Troseddau sy'n Gysylltiedig â Therfysgaeth**

Nid troseddau yn y ddeddfwriaeth terfysgaeth yw'r rhain, ond rhai y bernir eu bod wedi cael eu cyflawni mewn perthynas â therfysgaeth.

(Diffiniadau o Ganllawiau CONTEST Llywodraeth EM: i Gymru a Lloegr)

4. **Atebolrwydd**

Er bod yr holl staff yn gyfrifol am weithredu Polisi a Gweithdrefnau Diogelu'r Coleg, mae swyddi dynodedig yn atebol am sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn dilyn y protocolau canllaw.

4.1. Cyfeirir at y staff dynodedig sydd â gwybodaeth arbenigol am faterion gweithredol sy'n ymwneud â diogelu plant fel Swyddogion Diogelu. Gall y Swyddogion Diogelu roi cyngor i ddsygwyr a staff ynghylch pryderon sy'n ymwneud â lles a diogelu. Mae'r Swyddogion Diogelu ar gael i:

- Wrando ar ddsygwyr a'u hatgyfeirio fel y bo'n briodol
- Rhoi cyngor a chefnogaeth i staff ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelu
- Adrodd ac uwchgyfeirio datgeliadau i Swyddog Arweiniol Diogelu (SLO)

- Cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn achos o Ddiogelu Plentyn neu Oedolyn yn Agored i Niwed
- Cefnogi dysgwyr ar faterion diogelu a gwaith rhyngasiantaethol

Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata yw'r rheolwr enwebedig sy'n goruchwylio cyfrifoldebau'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL)) ar draws Grŵp Llandrillo Menai. Rheolwyr y Gwasanaethau i Ddysgwyr sy'n gweithredu fel Swyddogion Diogelu Arweiniol yn eu priod golegau ac yn goruchwylio'r gwaith o weinyddu'r gweithdrefnau diogelu ynddynt. Darperir cymorth i bob dysgwr: addysg bellach, addysg uwch, addysg oedolion yn y gymuned a dysgwyr seiliedig ar waith.

- 4.2. Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSP) 4.2 Fel y Swyddog Diogelu Arweiniol Dynodedig, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr sydd yn gyfrifol am uwchgyfeirio pryderon sy'n ymwneud â diogelu i'r Pennaeth Coleg / Uwch Gyfarwyddwr perthnasol ac Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd. Dyletswydd allweddol yw cymryd cyfrifoldeb arweiniol am godi ymwybyddiaeth ymhlith pob aelod o staff o faterion sy'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc yn y coleg. Mae meysydd cyfrifoldeb eraill yn cynnwys:
- Goruchwylio'r gwaith o atgyfeirio achosion o gam-drin tybiedig neu honiadau i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol
 - Rhoi cyngor a chymorth i staff eraill ar faterion sy'n ymwneud â diogelu
 - Sicrhau bod cofnod priodol yn cael ei gadw o unrhyw atgyfeiriad, cwyn neu bryder sy'n gysylltiedig â diogelu plant (hyd yn oed pan nad yw'r pryder yn arwain at atgyfeiriad)
 - Sicrhau bod rhieni plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu
 - Cysylltu â'r awdurdodau lleol a'r asiantaethau priodol
 - Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant sylfaenol mewn materion diogelu sy'n briodol i'w swyddi a'u bod ymwybodol o weithdrefnau'r coleg
- 4.3. Y Prif Weithredwr yw'r uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu ac fe'i cefnogir gan aelod etholedig o Fwrdd y Gorfforaeth.
- 4.4. Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yw'r uwch reolwr dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer recriwtio a dethol staff ac am sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i adrodd a delio â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn aelodau staff fel rhan o'r polisi Disgyblu, Cwynion a Galluogrwydd.
- 4.5. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn atebol am sicrhau bod gan Grŵp Llandrillo Menai bolisiâu a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu dysgwyr ac i fonitro cydymffurfiaeth. Nid oes gan Fwrdd y Llywodraethwyr na Llywodraethwyr unigol rôl wrth ddelio ag achosion unigol na hawl i wybod am fanylion achosion ac eithrio wrth arfer eu swyddogaethau disgyblu mewn perthynas â honiadau a wneir yn erbyn aelod o staff.
- 4.6. Pan fo'r coleg yn darparu addysg a/neu hyfforddiant i ddysgwyr o dan 16 oed sydd ar gofrestr ysgolion uwchradd, bydd y Pennaeth/Uwch Gyfarwyddwr priodol a gefnogir gan y Swyddog Diogelu Arweiniol yn cysylltu â'r ysgol a/neu'r Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith pe bai datgeliad diogelu yn cael ei wneud i staff y coleg.
- 4.7. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar bob aelod o staff i roi gwybod i'r Swyddog Diogelu am unrhyw ddatgeliad, honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth neu risg o niwed sylweddol. Rhaid gwneud hyn ar unwaith.

- 4.8. Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr y bydd atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant yn cael ei wneud, oni bai y gallai gwneud hynny roi'r plentyn mewn perygl, e.e.
- Pan fo cam-drin rhywiol yn cael ei amau neu ei ddatgelu
 - Pan fo amheuaeth bod salwch yn cael ei ffugio neu'n cael ei achosi
 - Pan fo ofnau am ddiogelwch plentyn neu eraill wrth hysbysu rhieni/gofalwyr
 - Pan nad yw'n bosibl cysylltu ar unwaith â'r rhieni/gofalwyr a bod angen cymryd camau buan i sicrhau diogelwch y plentyn.
- 4.9. Dylid cofnodi unrhyw benderfyniad i beidio â hysbysu'r rhieni/gofalwyr ar ffurflen gyfeirio'r Gwasanaethau Plant, gyda'r rhesymau dros benderfyniad o'r fath.
- 4.10. Mae gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig gyfrifoldeb i sicrhau bod datgeliad, honiad neu amheuaeth o gam-drin yn cael ei atgyfeirio i'r asiantaeth briodol.
- 4.11. Rhaid i les y plentyn/plant/oedolyn agored i niwed, gan gynnwys lles unrhyw blentyn arall a allai fod mewn perygl, gael blaenoriaeth bob amser dros gyfrinachedd. O dan unrhyw amgylchiadau, ni ellir gwneud addewid i beidio â dweud wrth unrhyw un am fanylion datgeliad lle mae plentyn mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth sylweddol.
- 4.12. Bydd unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu o fewn amgylchedd o gyfrinachedd llym. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn sicrhau bod y system o gofnodion canolog yn cael ei chadw'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Rhaid cadw bob amser at y protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu ac Uned Ddiogelu'r Heddlu.
- 4.13. Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi'i ddynodi'n 'awdurdod penodedig' ac o dan ganllawiau Dyletswydd Prevent mae'n ofynnol iddo enwebu Pwynt Cyswllt Unigol dynodedig y gall yr Heddlu, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) ac asiantaethau allanol gysylltu ag ef.
- 4.14. Fel arfer, yr un enwebai â'r Swyddog Diogelu Arweiniol Dynodedig (SLO) yw'r Pwynt Cyswllt Unigol dynodedig ac mae'n ymgymryd â'r un rôl arweiniol o ran codi ymwybyddiaeth o Prevent a sicrhau ymgysylltiad gweithredol ymhlith staff a dysgwyr. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr (DSP) sy'n ymgymryd â'r rôl hon yng Ngrŵp Llandrillo Menai.
- 4.15. Mae'r meysydd cyfrifoldeb mewn perthynas â Dyletswydd Prevent yn cynnwys:
- Codi ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Prevent ymysg yr holl staff a sicrhau eu bod yn ei deall.
 - Cysylltu â thiworiaid ynghylch defnyddio adnoddau cyfeirio a thiwтора Prevent i godi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr.
 - Cefnogi gweithgareddau i sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Prevent
 - Cysylltu ag Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) a'r Heddlu ynghylch dysgwyr sy'n peri pryder.
 - Cysylltu ag awduron polisiâu'r Grŵp i sicrhau y cyfeirir at Prevent fel y bo'n briodol
 - Monitro'r broses o gael Siaradwyr Allanol
 - Cysylltu â rheolwyr i sicrhau bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant fel y bo'n briodol
 - Sicrhau bod yr adroddiadau hunanasesu a monitro'n cael eu cwblhau a'u cyfeirio at y pwyllgor priodol
 - Cynrychioli Grŵp Llandrillo Menai ar Fforwm AU ac AB Prevent Gogledd Cymru

5. Ymateb i Ddatgeliad

- 5.1. Pan wneir datgeliad i aelod o staff am gamdriniaeth neu risg o niwed sylweddol, rhaid i'r aelod o staff roi gwybod am y datgeliad i Swyddog Diogelu ar unwaith (neu geisio gwneud hynny cyn pen 4 awr) a rhoi'r weithdrefn ddiogelu ar waith. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau disgyblu.
- 5.2. Dylid trin gwybodaeth sy'n ymwneud â cham-drin gwirioneddol, tybiedig neu honedig gyda'r gofal mwyaf. Bydd y Swyddog Diogelu yn sicrhau mai dim ond gyda'r staff hynny y mae angen iddynt gael gwybod y rhennir y wybodaeth. Ni ddylai unrhyw un gael mwy o wybodaeth nag sy'n angenrheidiol i gefnogi'r person ifanc neu'r oedolyn sy'n agored i niwed.
- 5.3. Gall unrhyw aelod o staff neu ddysgwyr godi pryderon am aelodau eraill o staff a dysgwyr sy'n agored i'r risg o gael eu denu gan eithafiaeth, yn seiliedig ar wybodaeth y maent wedi'i chael neu ymddygiad y maent hwy neu unigolyn arall wedi'i weld. Oni bai fod bygythiad uniongyrchol i fywyd neu fygythiad uniongyrchol o niwed, dylid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu am bob pryder. Mewn achosion lle ceir bygythiad uniongyrchol, dylid dilyn y Gweithdrefnau Diogelwch, Diogeledd ac Argyfwng.
- 5.4. Pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff, dylid cyfeirio'r honiad ar unwaith at y Pennaeth. Ni fydd y Pennaeth yn ymchwilio i honiad o gamdriniaeth. Cynhelir asesiad cychwynnol gan y Pennaeth a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a fydd yn penderfynu a ddylid gwneud atgyfeiriad Rhan 4 o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, 2019.

6. Adolygiad Diogelu

- 6.1. 6.1 Trafodir pob atgyfeiriad Diogelu yn yr adolygiadau wythnosol o achosion cleientiaid a elwir gan y Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr priodol. Mae Mentoriaid a staff Cwnsela'n cyfarfod i drafod canlyniad y cymorth a'r atgyfeiriadau a wnaed i asiantaethau allanol. Mae hyn yn galluogi rhannu arfer da ymhlith y tîm gweithredol ac yn rhoi cyfle i'r rheolwyr asesu effeithiolrwydd y cyfeiriadau i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 6.2. Trafodir pob cyfeiriad Diogelu bob mis yng nghyfarfodydd Tîm Strategol, Tîm Polisi a Llywodraethwyr GLIM.

7. Recriwtio Staff

- 7.1. Mae gan y coleg weithdrefnau cadarn ar gyfer recriwtio a dethol staff sy'n ei gefnogi i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc. Mae'r arferion recriwtio teg a diogel yn cael eu cynnal yn unol â'r cyfrifoldebau deddfwriaethol a nodir yn Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwylf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac yn unol hefyd â gweithdrefnau gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff yr holl staff eu recriwtio'n unol â pholisi a gweithdrefnau recriwtio Grŵp Llandrillo Menai fel y'u goruchwylir gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol.

8. Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddi Staff

- 8.1. Bydd staff newydd yn cael gwybod am eu dyletswyddau diogelu ac yn cael copi o'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu yn ystod eu rhaglen gynefino.
- 8.2. Diogelu mae hyfforddiant diogelu yn orfodol i'r holl staff. Darperir hyfforddiant drwy fodiwlau ar-lein a sesiynau wedi'u hwyluso ar gyfer pynciau penodol. Dylai aelodau newydd o staff gwblhau'r modiwlau Diogelu a Prevent ar-lein o fewn mis o ddechrau eu dyletswyddau.
- 8.3. Bydd yr holl Swyddogion Diogelu yn mynychu hyfforddiant Diogelu a hwylusir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Siân Pritchard	Dyddiad:	14/11/2023
Cymeradwywyd yr asesiad gan:	Angharad Roberts	Dyddiad:	14/11/2023

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	<p>Mae hwn yn ddiwygiad i'r Polisi Diogelu presennol sy'n anelu at gynnwys gwybodaeth ddiweddar newydd gan y coleg ac o ran canllawiau diogelu yn genedlaethol.</p> <p>Mae'r polisi'n cwmpasu'r holl weithwyr, dysgwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws y sefydliad a'i nod yw trin pawb yn deg waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig. Ei bwrpas yw sicrhau nad oes dim yn rhwystro neb rhag cael mynediad i'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig na'u defnyddio.</p>	<p>Nod y polisi yw cael effaith gadarnhaol ar blant ac oedolion bregus. Gall hyn olygu y gall ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion fod yn isel ymhlith staff. Mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i gynyddu'r pwyslais ar y mater hwn.</p> <p>Mae Rhan 2.3.1 o'r polisi yn cyfeirio'n fras at anghenion diwylliannol plant neu oedolion agored i niwed, ond nid yw'n ei gwneud yn glir, er bod gwahaniaethau diwylliannol i'w hystyried wrth asesu anghenion ac amgylchiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. , ni ddylid defnyddio'r rhain fel rheswm derbynol dros unrhyw fath o gam-drin neu esgeuluso plant. Bydd angen nodi hyn mewn dogfennau hyfforddi a gweithdrefnol.</p>
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	<p>Mae'r polisi Diogelu yn amddiffyn pob dysgwr rhag niwed a all fod mewn perygl, gydag amgylchedd dysgu cefnogol diogel sy'n eu hannog i gyflawni eu potensial a lle cânt eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a cham-fanteisio. Mae hyn yn cynnwys pob grŵp gwarchoddedig yn y coleg.</p> <p>Mae'r polisi o fudd i blant (oedran) ac oedolion agored i niwed (anabledd) oherwydd y camau posibl a gymerwyd i'w cadw'n ddiogel o dan yr amgylchiadau lle gall pryder diogelu godi.</p>	<p>Mae'r polisi'n cydnabod na fyddai pob person anabl yn dod o dan y categori oedolyn agored i niwed (diffiniad wedi'i gynnwys o dan adran 3.2). Mae hyn yn helpu i atal rhagdybiaethau bod pawb ag anableddau yn agored i niwed. Bydd y coleg yn sensitif o ran ymdrin â sefyllfaoedd yn ymwneud â radicaleiddio posibl, yn enwedig er mwyn osgoi gwneud rhagdybiaethau am unigolion o grwpiau ethnig penodol. Bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn cael eu trin gan y tîm diogelu gan mai ein prif nod yw cefnogi dysgwyr bregus.</p>

	<p>Mae'r polisi'n ymdrin â thrais domestig sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod.</p> <p>Mae pob grŵp yn elwa o'r polisi / proses gan ei fod yn sicrhau diogelwch a lles pob grŵp gwarchoddedig.</p>	
<p>A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?</p>	<p>Bydd y polisi yn helpu staff i ddeall y broses ddiogelu. Bydd hyn yn cynnwys diogelu dysgwyr o grwpiau nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Bydd unigolion mewn perthynas â'r holl nodweddion a warchodir yn cael budd o'r polisi. Mae gan y sefydliad hefyd amrywiaeth o bolisiâu, prosiectau a chymau gweithredu eraill i helpu i ddod â phobl at ei gilydd – ee Hyfforddiant Cydraddoldeb, Strategaeth Cydraddoldeb, cynllun gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth).</p>	<p>Parhau i fonitro cofnodion cyflwyniadau diogelu i chwilio am unrhyw duedd ymhlith unrhyw grwpiau nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Parhau i adrodd ar dueddiadau / patrymau posibl a welwyd ar gyfer grwpiau gwarchoddedig i'r Panel Cydraddoldeb.</p>
<p>A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?</p>	<p>Nid os dilynir y polisi yn gywir</p>	
<p>A oes polisiâu eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?</p>	<p>Nac ydi</p>	
<p>Casgliad</p>	<p>Parhau â'r polisi</p>	

<p>LLOFNODWYD:</p>	<p>Gaz Williams Siân Pritchard</p>	<p>Dyddiad:</p>	<p>14/11/2023</p>
--------------------	--	-----------------	-------------------



Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd yr aseiad gan:	Siân Pritchard	Dyddiad:	14/11/2023
Cymeradwywyd yr aseiad gan:	Angharad Roberts	Dyddiad:	14/11/2023

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg neu Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae dysgwyr a staff yn gallu ac yn cael eu cefnogi i ddefnyddio gweithdrefnau adrodd yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog fel o'u dewis.	
Pa effeithiau andwyol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Ni ystyrir y bydd y polisi yn cael effaith andwyol ar bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.	

A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, a phryd?	Mae gan y timau Gwasanaethau Dysgwyr a Lles staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu cefnogi dysgwyr a staff.	
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai a'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg?	Ydy	
Casgliad	Parhau â'r polisi	

LLOFNODWYD:	Siân Pritchard	Dyddiad:	14/11/2023
-------------	----------------	----------	------------